

# Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru

Adroddiad Ystadegol 2021-2022

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg/This document is available in English

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

## Amdanom ni

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bodoli i ddiogelu a gwella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru.

Rydym yn rhan o'r GIG ac yn adrodd i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru.

Ein gweledigaeth yw sicrhau Cymru iachach, hapusach a thecach. Rydym yn gweithio yn lleol, yn genedlaethol, gyda'n partneriaid ac ar draws cymunedau yn y meysydd canlynol:

**Diogelu iechyd** — darparu gwybodaeth a chyngor a chymryd camau i ddiogelu pobl rhag clefyd trosglwyddadwy a pheryglon amgylcheddol

**Gofal sylfaenol, cymunedol ac integredig** — cryfhau effaith iechyd y cyhoedd drwy bolisi, comisiynu, cynllunio a darparu gwasanaethau

**Microbioleg** — darparu rhwydwaith o wasanaethau microbioleg sy'n cynorthwyo diagnosis o glefydau heintus a'u rheoli

**Diogelu** — darparu arbenigedd a chyngor strategol i helpu i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed

**Sgrinio** — darparu rhaglenni sgrinio sy'n cynorthwyo canfod clefydau'n gynnar, eu hatal a'u trin

**Gwybodaeth iechyd** — dadansoddi data iechyd y cyhoedd, dod o hyd i dystiolaeth a rheoli gwybodaeth

**Gwella ansawdd a diogelwch cleifion y GIG** — darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i'r GIG i wella canlyniadau cleifion

**Polisi, ymchwil a datblygu rhyngwladol** — dylanwadu ar bolisi, cynorthwyo ymchwil a chyfrannu at ddatblygu iechyd yn rhyngwladol

**Gwella iechyd** — gweithio ar draws asiantaethau a darparu gwasanaethau i'r boblogaeth er mwyn gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd

### Rhagor o wybodaeth

Gwefan: icc.gig.cymru
E-bost: ymholiadau.cyffredinol@wales.nhs.uk
Twitter: @IechydCyhoeddus
Facebook: facebook.com/iechydcyhoedduscymru

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb manwl o wybodaeth am waith a wnaed gan Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru ar gyfer y flwyddyn o fis Ebrill 2021 tan ddiwedd mis Mawrth 2022.

**Manylion Cyhoeddi: Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru 2021-22**

**Dyddiad: Awst 2024**

**ISBN:** 978-1-83766-448-1

**I gael rhagor o wybodaeth am yr adroddiad hwn a rhoi adborth arno cysylltwch â:**
Helen Clayton, Rheolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data,
Yr Is-adran Gwybodeg, Llawr 6, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Rhif 2 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ
Ffôn: 029 2010 4405
E-bost: Screening.Information@wales.nhs.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg heb oedi / We welcome correspondence and phone calls in Welsh. Byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg yn ddi-oed.

**Datganiad Sicrhau Ansawdd**

Mae cofnodion sgrinio data yn cael eu diweddaru'n barhaus. Mae'r cronfeydd data a ddefnyddir gan Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu diweddaru'n ddyddiol pan fydd cofnodion yn cael eu hychwanegu, eu newid neu eu dileu (archifo). Gallai hyn ymwneud â phan fydd unigolyn wedi'i nodi fel rhywun y mae angen gwasanaeth sgrinio arno; wedi cael canlyniadau sy'n rhaid eu cofnodi, neu â newid statws ac nad oes angen sgrinio arno mwyach yn y drefn honno. Derbynnir data o nifer fawr o ffynonellau gwahanol sy'n amrywio o ran cywirdeb a chyflawnder. Mae'r Adran Sgrinio yn gwirio data ar gyfer cywirdeb drwy gymharu setiau data – er enghraifft data practis meddyg teulu – ac yn cywiro'r data codio lle y bo'n bosibl. Dylid nodi y ceir oedi weithiau o ran casglu data – er enghraifft efallai na fydd person yn cofrestru gyda'i feddyg teulu ar unwaith. Felly bydd yr oedi hwn yn effeithio ar gyflawnder y data yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Yn ogystal, dylai'r darllenydd fod yn ymwybodol bod data yn cael eu diweddaru'n barhaus a gall fod mân ailaddasiadau yn y niferoedd a ddyfynnir yn y ddogfen hon o un

flwyddyn i'r llall oherwydd adnewyddu data.

© 2024 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
Gellir atgynhyrchu deunydd yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored
www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod ei fod yn gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r hawlfraint o ran y trefniant teipograffyddol, y dylunio a'r diwygio yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 6
2. Negeseuon allweddol i'r cyhoedd ........ 6
3. Cyflawni'r rhaglen ........ 7
4. Llwybr sgrinio ........ 7
5. Penawdau Ystadegau 2021-22 ........ 8
6. Data ........ 9
   - 6.1 Cwmpas ........ 9
   - 6.2 Canran y rhai a gafodd eu sgrinio ........ 11
   - 6.3 Cynnig sgrinio'n amserol ........ 11
   - 6.4 Adroddiad ar ganlyniadau sgrinio ........ 11
   - 6.5 Retinopathi a nodwyd ........ 12
   - 6.6 Atgyfeiriadau i Offthalmoleg ........ 14
7. Diffiniadau ........ 15
8. Tîm Cynhyrchu ........ 17


## Tablau a Graffiau


Tabl 1: Cwmpas sgrinio llygaid diabetig ........ 10

Tabl 2: Cwmpas yn ôl cwintel amddifadedd ........ 10

Tabl 3: Nifer a gafodd eu sgrinio ........ 11

Tabl 4: Cyfranogwyr a gafodd eu hailalw o fewn 12 mis ........ 11

Tabl 5: Llythyrau canlyniadau a argraffwyd ........ 12

Tabl 6: Dadansoddiad o bresenoldeb retinopathi ........ 12

Tabl 7: Canlyniadau retinopathi ........ 13

Tabl 8: Atgyfeiriadau brys ar gyfer retinopathi ymledol gweithredol (R3A) i offthalmoleg o fewn 14 diwrnod ........ 14

Tabl 9: Pob atgyfeiriad brys i offthalmoleg ........ 14

## 1. Cyflwyniad

Croeso i'r pumed adroddiad ystadegol blynyddol a gyhoeddir gan Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW), Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cafodd DESW (Gwasanaeth Sgrinio Retinopathi Diabetig Cymru yn flaenorol) ei gomisiynu'n wreiddiol fel gwasanaeth cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2002. Daeth DESW yn weithredol ym mis Mehefin 2003 ac erbyn 2004 roedd yn darparu gwasanaeth i gyfranogwyr ym mhob ardal bwrdd iechyd yng Nghymru. Cafodd y gwasanaeth ei gynnal gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro tan fis Ebrill 2016 pan drosglwyddodd i ymuno â'r Rhaglenni Sgrinio seiliedig ar boblogaeth eraill a ddarperir gan Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Nod y gwasanaeth yw canfod retinopathi diabetig cyn colli golwg. Mae tystiolaeth ymchwil yn dangos bod nodi a thriniaeth gynnar yn gallu atal colli golwg mewn 70 – 90% o bobl â retinopathi diabetig sy'n bygwth golwg[1] [2].

Mae'r rhai sy'n 12 oed a throsodd sydd wedi cael diagnosis o ddiabetes, sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu yng Nghymru, yn gymwys ac yn cael eu gwahodd am brofion sgrinio'r retina rheolaidd gyda DESW.

## 2. Negeseuon allweddol i'r cyhoedd

- Mae sgrinio llygaid yn rheolaidd yn lleihau eich risg o golli golwg a achosir gan retinopathi diabetig.
- Mae retinopathi diabetig yn gymhlethdod cyffredin mewn diabetes sy'n effeithio ar y rhan o'r llygad sy'n 'gweld': y retina.
- Mae retinopathi yn cael ei achosi pan fydd pibellau gwaed bach yn y retina yn tyfu neu'n gollwng. Dros amser, gall hyn effeithio ar olwg dros dro neu'n barhaol.
- Hyd nes iddo gyrraedd cam hwyr, nid yw'r rhan fwyaf o bobl â retinopathi yn profi unrhyw symptomau na cholli golwg; nid ydynt yn gwybod yr effeithir arnynt.
- Sgrinio llygaid yn rheolaidd yw'r ffordd orau o nodi a oes gennych unrhyw retinopathi.
- Gall retinopathi cam cynnar gael ei wrthdroi drwy gadw lefelau siwgr gwaed o fewn yr ystod darged; gall retinopathi mwy datblygedig gael ei drin gan bigiadau llygaid neu gan laser.

---

[1] Diabetic Retinopathy Study Research Group (1981) Photocoagulation treatment of proliferative diabetic retinopathy. Clinical application of Diabetic Retinopathy Study (DRS) findings, DRS Report Number 8. Ophthalmology 88: 583–600

[2] Early Treatment Diabetic Retinopathy Study (ETDRS) Research Group (1985) Photocoagulation for diabetic macular edema. Early Treatment Diabetic Retinopathy Study report number 1. Arch Ophthalmol 103: 1796–806

- Mae sgrinio DESW yn brawf am ddim gan y GIG a gynhelir mewn lleoliadau cymunedol ledled Cymru.
- Nid yw'r prawf sgrinio yn 100% gywir ac mae risgiau'n gysylltiedig â thriniaeth ar gyfer retinopathi diabetig.
- Dewis y cyfranogwr yw cymryd rhan mewn sgrinio llygaid diabetig.

## 3. Cyflawni'r rhaglen

Mae Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am reoli, cyflawni a sicrhau ansawdd y rhaglen. Mae'r rhaglen yn cyflogi Pennaeth Rhaglen amser llawn, Cyfarwyddwr Clinigol sesiynol ac Arbenigwr Cyswllt. O fis Hydref 2020, mae goruchwyliaeth glinigol a phroffesiynol sgrinio wedi'i chynnal gan bedair nyrs amser llawn yn dilyn ailstrwythuro'r gwasanaeth ar draws y Rhaglen, a gynhaliwyd yn 2019. Yn ogystal, er mwyn cynyddu adnoddau staffio clinigol, cafodd tîm rheoli DESW ei ehangu i 10 aelod o staff. Mae'r tîm hwn yn gyfrifol am oruchwylio a chynorthwyo'r gwaith o ddarparu'r rhaglen ledled Cymru gan gynnwys archebu'r clinig, darparu'r clinig a swyddogaethau graddio delweddau.

Yn sgil newid dros dro i'r strwythur rheoli yn y rhaglen ym mis Ionawr 2022, roedd yn bosibl dechrau'r Rhaglen Trawsnewid ar gyfer DESW. Yn lle rôl Pennaeth y Rhaglen, mae dwy swydd dros dro Rheolwr Optimeiddio a Rheolwr Trawsnewid wedi'u cyflwyno, ynghyd â swydd Arweinydd Rhanddeiliaid. Y bwriad yw i'r Rheolwr Trawsnewid ddatblygu'r newidiadau sydd eu hangen i greu model gwasanaeth yn y dyfodol, wrth i'r Rheolwr Optimeiddio a'r Arweinydd Rhanddeiliaid ganolbwyntio ar gynnal y rhaglen o ddydd i ddydd.

Mae'r clinigau sgrinio yn cael eu staffio gan 60 o Weithwyr Cymorth Gofal (Sgrinwyr), gan weithredu o bedair canolfan ledled Cymru. Mae 38 o'r staff hyn hefyd wedi'u hyfforddi i gofnodi delweddau retinol. Yn dilyn ailstrwythuro'r gwasanaeth, mae sgrinwyr yn cael eu cynorthwyo gan dîm o bum Uwch Sgriniwr sy'n cyfuno cyfrifoldebau rheoli a darparu clinigau. Mae'r holl ddelweddau retinol a gymerir ledled Cymru yn cael eu hadolygu a'u graddio gan ein tîm graddio o 12 aelod o staff sydd wedi'u lleoli yn Nhrefforest, de Cymru. Mae'r Graddwyr yn cael eu rheoli gan dri o Uwch Raddwyr sy'n cyflawni dyletswyddau graddio a rheoli.

## 4. Llwybr sgrinio

- Mae pobl sy'n 12 a hŷn sydd wedi cael diagnosis o ddiabetes, sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu yng Nghymru, yn cael eu hatgyfeirio i DESW ar gyfer sgrinio'r llygaid yn rheolaidd.
- Mae pobl gymwys yn cael eu gwahodd i sgrinio'r llygaid mewn mwy na 70 o leoliadau cymunedol ledled Cymru, fel ysbytai, canolfannau iechyd, practisau meddygon teulu, neu mewn mannau cymunedol addas wedi'u llogi.

- Bydd cyfranogwyr yn cael ymgynghoriad byr gydag un o Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd DESW. Ar ôl gwirio craffter golwg (siart llygaid), rhoddir diferion llygaid er mwyn gwneud canhwyllau'r llygaid yn fwy.
- Ar ôl aros am tua 20 munud er mwyn i'r diferion llygaid weithio, bydd y Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd yn cymryd ffotograffau o gefn y llygaid gan ddefnyddio camera arbennig.
- Caiff y delweddau eu graddio er mwyn nodi a oes unrhyw arwyddion o retinopathi diabetig yn bresennol, ac os yw'n bresennol byddant yn nodi difrifoldeb y retinopathi.
- Caiff llythyrau sy'n cynnwys y canlyniadau sgrinio ac sy'n esbonio'r camau nesaf eu hanfon at bob cyfranogwr:
    - Lle nad oes retinopathi, neu dim ond swm cyfyngedig o retinopathi cefndirol yn bresennol, caiff y cyfranogwr ei ailwahodd i gael ei sgrinio gan DESW mewn tua 12 mis.
    - Lle mae retinopathi fymryn yn brin o fod yn gyflwr y gellir ei atgyfeirio gyda ffactorau risg ychwanegol, efallai y caiff y cyfranogwr ei ailalw ar gyfer sgrinio DESW mewn chwe mis i fonitro ei retinopathi (gwyliadwriaeth)
    - Mae cyfranogwyr â retinopathi a allai fygwth golwg yn cael eu hatgyfeirio i Adran Offthalmoleg eu hysbyty lleol am asesiad arbenigol.
    - Os yw'r cyfranogwr yn feichiog, caiff ei gweld o leiaf ddwywaith yn ystod ei beichiogrwydd, p'un a oes unrhyw retinopathi yn bresennol ai peidio. Os oes unrhyw bryderon, yna bydd trydydd apwyntiad yn cael ei gynnig hefyd.
    - Weithiau, nid yw'r delweddau a gymerir yn ddigon clir i wneud asesiad llawn (delweddau 'annigonol'). Mae'r cyfranogwyr hyn naill ai'n cael eu hailwahodd i gael mwy o ddelweddau wedi'u cymryd neu eu hatgyfeirio i Offthalmoleg ar gyfer asesiad gydag offer gwahanol.

## 5. Penawdau Ystadegau 2021-22

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu gweithgarwch o fis Ebrill 2021 i fis Mawrth 2022 yn gynhwysol.

- Cwmpas y rhaglen oedd 23.5% o fewn 12 mis (ar 31 Mawrth 2022)
- Y gyfradd dderbyn o ran apwyntiadau sgrinio a gynigiwyd oedd 57.85% (ar 31 Mawrth 2022).

Rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022:

- cafwyd 12,586 o atgyfeiriadau ychwanegol ar gyfer pobl a oedd newydd gael diagnosis o ddiabetes neu a oedd newydd gofrestru gyda meddyg teulu yng Nghymru

- gwahoddwyd 84,076 o unigolion i sgrinio'r llygaid

- aeth 48,637 o unigolion i glinigau sgrinio llygaid (gan gynnwys pobl a aeth ar fwy nag un achlysur)
- Nid oedd 42.1% o’r rhai a wahoddwyd wedi mynd i apwyntiad sgrinio llygaid DESW
- Nododd DESW 47,850 o ganlyniadau sgrinio, gan gynnwys 4,305 (9%) a nodwyd fel rhai ‘annigonol’
- Nododd DESW bresenoldeb rhywfaint o retinopathi diabetig mewn 18,426 o unigolion (38.5% o’r rhai a sgriniwyd)
- Nodwyd bod gan 4,561 o bobl (9.5% o’r rhai a gafodd ganlyniad sgrinio) retinopathi diabetig a allai fygwth golwg a'u hatgyfeirio gan DESW i Offthalmoleg ar gyfer asesiad arbenigol
- Drwy gydol 2021-22, roedd cwmpas y sgrinio a'r amseroedd aros ar gyfer ailalw yn is na'r safon, gydag amrywiad o ran amseroedd aros mewn ardaloedd daearyddol gwahanol.

Effeithiwyd ar ddarparu'r gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn gan adferiad o saib mewn sgrinio yn ystod yr ymateb i bandemig COVID-19. Ym mis Mawrth 2020, gwnaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru y penderfyniad anodd i oedi nifer o raglenni sgrinio, gan gynnwys DESW. Cafodd y gwaith o ddarparu clinigau sgrinio ei oedi ar 18 Mawrth 2020 ond parhaodd y rhaglen i baratoi canlyniadau sgrinio ar gyfer yr holl achosion a oedd yn weddill, gan oedi'r ddarpariaeth arferol yn llawn ar 3 Ebrill 2020, pan oedd y gwaith hwn wedi'i gwblhau. Ailddechreuodd y sgrinio ym mis Medi 2020.

## 6. Data

Oherwydd yr oedi o ran sgrinio yn ystod y pandemig a'r nifer is o gyfranogwyr a wahoddwyd yn ystod y flwyddyn 2021-22, mae'r data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn ar lefel Cymru gyfan ac nid ydynt wedi'u rhannu yn ôl bwrdd iechyd.

### 6.1 Cwmpas

**Y Safon:** Dylai isafswm o 80% o gyfranogwyr gweithredol cymwys gael canlyniad a gofnodwyd yn y 12 mis diwethaf.

Mae cwmpas wedi'i ddiffinio fel y ganran o gyfranogwyr gweithredol cymwys, ar adeg benodol, sydd â chanlyniad a gofnodwyd yn y 12 mis blaenorol. Mae cyfranogwyr anghymwys yn cynnwys y rhai heb unrhyw ganfyddiad o oleuni yn y ddau lygad (sy'n gwbl ddall). Mae cyfranogwyr anweithredol yn cynnwys y rhai sydd o dan ofal gwasanaeth llygaid mewn ysbyty, neu sydd wedi dewis ‘optio allan’ o sgrinio llygaid yn ystod y cyfnod.

Gostyngodd twf y gwasanaeth yn ystod 2021-22 ar gyfradd o -1.54%, gyda 12,586 o atgyfeiriadau eraill wedi'u derbyn gan y rhaglen ar gyfer pobl a gafodd ddiagnosis o ddiabetes neu a gofrestrodd gyda meddyg teulu yng Nghymru.

Gwahoddodd DESW 84,076 o gyfranogwyr i sgrinio llygaid, gyda 48,638 o unigolion yn mynd i'n clinigau (gan gynnwys pobl a aeth ar fwy nag un achlysur). Cyfradd diffyg presenoldeb y gwasanaeth, i'r bobl hynny nad ydynt yn manteisio ar eu gwahoddiad sgrinio, oedd 42.15%, sy'n uchel ac nid yw'n gyson â blynyddoedd blaenorol.  Mae hyn wedi'i briodoli i'r pandemig parhaus, yn ogystal â'r cynnig o adolygiad retinol a wnaed i gyfranogwyr i fanteisio arno mewn optometrydd dynodedig yn lle apwyntiad sgrinio.

Nid yw'r safon o ran cwmpas yn cael ei chyrraedd ychwaith ledled Cymru. Mae hyn o ganlyniad i gapasiti o ran clinigau sgrinio a'r nifer cynyddol o bobl o fewn ein poblogaeth weithredol gymwys ledled Cymru.

**Tabl 1**:Cwmpas sgrinio llygaid diabetig

| | Cyfranogwyr gweithredol cymwys | Canlyniadau a gofnodwyd | Cwmpas (%) |
|---|---|---|---|
| Cymru Gyfan | 179,804 | 42,248 | 23.5% |

Mae Tabl 2 yn dangos y wybodaeth am gwmpas a ddisgrifir yn ôl cwintel amddifadedd. Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn flaenoriaeth iechyd cyhoeddus allweddol i gefnogi iechyd a llesiant da ar draws y boblogaeth gyfan. Ar lefel Cymru gyfan, y gwahaniaeth o ran cwmpas rhwng y mwyaf a'r lleiaf difreintiedig yw 6.3%.

**Tabl 2**:Cwmpas yn ôl cwintel amddifadedd

| | Lleiaf difreintiedig 1 | 2 | 3 | 4 | Mwyaf difreintiedig 5 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru Gyfan | 21.1% | 21.5% | 23.6% | 24.9% | 27.4% | 23.5% |

## 6.2 Canran y rhai a gafodd eu sgrinio

**Tabl 3**:Canran y rhai a gafodd eu sgrinio

| | Gwahoddwyd | Aethpwyd | Canran y rhai a gafodd eu sgrinio (%) |
|---|---|---|---|
| **Cymru Gyfan** | **84,076** | **48,637** | **57.85%** |

## 6.3 Cynnig sgrinio'n amserol

**Y Safon:** Dylai isafswm o 95% o gyfranogwyr gweithredol cymwys gael cynnig apwyntiad ailalw o fewn 12 mis i'w canlyniad sgrinio diwethaf.

Mae 97% o gyfranogwyr sy'n cael eu sgrinio yn cael eu hailalw ar gyfer sgrinio DESW, yn hytrach na chael eu hatgyfeirio i Offthalmoleg. Mae'r mwyafrif helaeth (95%) yn cael eu gosod ar lwybr ailalw rheolaidd, sy'n golygu y dylent gael eu sgrinio o fewn 12 mis i'w canlyniad sgrinio diwethaf. Mae cyfranogwyr nad ydynt yn mynd i'w hapwyntiad sgrinio hefyd yn cael llythyr atgoffa ac yn cael cynnig ailalw rheolaidd mewn 12 mis.

Nid yw'r safon hon yn cael ei chyrraedd ychwaith ledled Cymru. Mae hyn oherwydd capasiti o ran clinigau. Mae amseroedd aros am apwyntiadau sgrinio yn amrywio rhwng ardaloedd byrddau iechyd, gyda'r apwyntiadau'n cael eu cynnig fel arfer rhwng 14 a 18 mis ar ôl y canlyniad sgrinio diwethaf.

**Tabl 4**:Cyfranogwyr a gafodd eu hailalw o fewn 12 mis

| | Ailalw a gynigiwyd | Cynigiwyd yr ailalw o fewn 12 mis | % |
|---|---|---|---|
| **Cymru Gyfan** | **64,391** | **4,223** | **6.6%** |

## 6.4 Adroddiad ar ganlyniadau sgrinio

**Y Safon:** Dylai isafswm o 85% o lythyrau canlyniadau cyfranogwyr gael eu hargraffu o fewn 21 diwrnod calendr i'r apwyntiad sgrinio. Yn ystod y cyfnod hwn, llwyddwyd i gyrraedd y safon hon.

**Tabl 5**:Llythyrau canlyniadau a argraffwyd

| | Llythyrau canlyniadau a argraffwyd | Canlyniadau a argraffwyd o fewn 21 diwrnod | % |
|---|---|---|---|
| Cymru Gyfan | 47,850 | 47,804 | 99.9% |

## 6.5 Retinopathi a nodwyd

Mae Tabl 6 yn dangos nifer a chyfran y cyfranogwyr y mae eu canlyniad sgrinio yn dangos unrhyw retinopathi neu ddim retinopathi. Mae'r ffigurau Cymru Gyfan yn dangos na chafodd 52.5% o'r boblogaeth a sgriniwyd ledled Cymru unrhyw retinopathi wedi'i nodi o'u sgrinio. Effeithir ar y ffigur hwn gan y dull seiliedig ar risg o ran ailddechrau'r sgrinio yn dilyn oedi'r pandemig, gan wahodd y cyfranogwyr risg uchaf yn ôl i'r rhaglen yn gyntaf. Parhaodd y dull hwn ar gyfer 2021, ond dychwelodd y broses yn ôl i wahodd y cyfranogwr a fu'n aros hiraf yn gyntaf o fis Ionawr 2022.

Mae'r ffigur sy'n dangos 'unrhyw retinopathi' yn cynnwys presenoldeb pob gradd retinopathi: o retinopathi ysgafn, cefndirol i retinopathi ymledol sy'n ei gwneud yn ofynnol atgyfeirio i'r ysbyty ar frys. Gall presenoldeb a difrifoldeb retinopathi amrywio yn dibynnu ar lefel glwcos gwaed y person dros amser. Gall unigolyn sydd yn y categori 'unrhyw retinopathi' mewn un flwyddyn symud i 'dim retinopathi' yn y digwyddiad sgrinio nesaf.

Mae'r categori 'annigonol' yn ymwneud â'r cyfranogwyr hynny sydd wedi mynd i gael eu hasesiad sgrinio llygaid, ond ni fu'n bosibl cofnodi ffotograff clir o'u retina er mwyn gallu gwneud y graddio. Un enghraifft o hyn fyddai oherwydd bod gan y cyfranogwr gataract sy'n cuddio'r retina rhag ei weld, neu lle cafwyd problemau technegol gyda'r camera. Gall cyfranogwyr â delweddau annigonol naill ai gael eu hatgyfeirio i wasanaethau llygaid ysbyty neu eu hailalw i gael eu sgrinio, yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

**Tabl 6**:Dadansoddiad o bresenoldeb retinopathi

| | Canlyniadau a gofnodwyd | Dim retinopathi | % | Unrhyw retinopathi | % | Delwedd annigonol | % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru Gyfan | 47,850 | 25,119 | 52.5% | 18,426 | 38.51% | 4,305 | 9.00% |

Mae'r data isod yn rhoi rhagor o fanylion am y ffigurau a ddangosir yn nhabl 6. Fel y gellir gweld, er bod gan 38.51% o gyfranogwyr a sgriniwyd ledled Cymru rywfaint o retinopathi, mae gan gyfran lai o lawer retinopathi sy'n bygwth golwg, a allai ei gwneud yn ofynnol atgyfeirio i wasanaethau llygaid ysbyty ar gyfer asesiad a

thriniaeth arbenigol.

**Tabl 7**:Canlyniadau retinopathi

| | Retinopathi/macwlopathi sy'n bygwth golwg | % o'r boblogaeth ddiabetig a sgriniwyd â retinopathi/macwlopathi sy'n bygwth golwg yn ôl Bwrdd Iechyd | Retinopathi/macwlopathi difrifol * | % o'r boblogaeth ddiabetig a sgriniwyd â retinopathi/macwlopathi difrifol yn ôl Bwrdd Iechyd |
|---|---|---|---|---|
| Cymru Gyfan | 4,575 | 9.56% | 541 | 1.13% |

* nifer y bobl â retinopathi/macwlopathi sy'n bygwth golwg sy'n ddifrifol – noder, mae'r cyfranogwyr hyn yn ymddangos yn y categori sy'n bygwth golwg a'r categori difrifol.

## 6.6 Atgyfeiriadau i Offthalmoleg

Mae DESW yn atgyfeirio cyfranogwyr i Offthalmoleg ar sail frys a rheolaidd, yn dibynnu ar ddifrifoldeb eu retinopathi.

O'r rhai a gafodd radd retinopathi diabetig a allai fygwth golwg, cafodd cyfanswm o 4,575 o bobl (9.56% o'r rhai a gafodd ganlyniad sgrinio) eu hatgyfeirio gan DESW i Offthalmoleg ar gyfer asesiad arbenigol. Roedd y rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau hyn (88.1%, 4,020 o atgyfeiriadau unigol) yn rhai rheolaidd.

O fis Ebrill 2018, mae gan y gwasanaeth safon o 95% o gyfranogwyr â chanlyniad retinopathi diabetig brys (R3A – retinopathi ymledol gweithredol) yn cael eu hatgyfeirio i Offthalmoleg o fewn 2 wythnos i'w hapwyntiad sgrinio.

**Tabl 8:** Atgyfeiriadau brys ar gyfer retinopathi ymledol gweithredol (R3A) i offthalmoleg o fewn 14 diwrnod

| | Nifer yr atgyfeiriadau R3A brys a wnaed | Atgyfeiriadau R3A a wnaed o fewn 14 diwrnod | % |
|---|---|---|---|
| **Cymru Gyfan** | 541 | 478 | 88.3% |

Mae Tabl 9 yn dangos nifer yr atgyfeiriadau brys a wnaed gan DESW yn ystod 2021-22. Ar lefel Cymru gyfan, roedd 81.5% o atgyfeiriadau brys yn ymwneud â retinopathi diabetig, ac roedd 18.40% yn ymwneud â materion eraill a nodwyd.

**Tabl 9**:Pob atgyfeiriad brys i offthalmoleg

| | Pob atgyfeiriad brys i offthalmoleg ar gyfer RD | Pob atgyfeiriad brys i Offthalmoleg ar gyfer niweidiau eraill * | Cyfanswm yr atgyfeiriadau brys |
|---|---|---|---|
| Cymru Gyfan | 541 | 122 | 663 |

* Os, wrth asesu delwedd ar gyfer retinopathi diabetig, bydd y graddiwr yn sylwi ar fater nad yw'n ymwneud â diabetes, efallai y bydd hyn hefyd yn ysgogi atgyfeiriad rheolaidd neu frys.

## 7. Diffiniadau

Mae'r adran hon yn rhoi rhagor o fanylion am y cyfrifiadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn.

**Gweithredol cymwys**

Mae'r diffiniad o'r boblogaeth weithredol gymwys yn cynnwys cyfranogwyr yn y cyflyrau canlynol:

- Aros am apwyntiad/triniaeth sgrinio
- Yn cael eu sgrinio / graddio
- O dan ofal Offthalmoleg ar gyfer cyflyrau nad ydynt yn rhai diabetig
- Nodwyd fel dychwelwyd drwy swyddfa'r post

Mae'r boblogaeth weithredol gymwys yn eithrio cyfranogwyr ataliedig ac anweithredol:

**Ataliedig**

- O dan ofal offthalmoleg ar gyfer retinopathi diabetig
- Gohiriwyd y sgrinio
- Anabledd corfforol/dysgu neu feddyliol dros dro
- Sgrinio wedi'i wrthod
- O dan 12 oed

**Anweithredol:**

- Wedi optio allan o sgrinio
- Yn anffit yn feddygol
- Dim canfyddiad o olau yn y ddau lygad
- Salwch angheuol
- Ymadawedig
- Rhyddhawyd
- Wedi symud allan o'r ardal
- Ddim yn ddiabetig bellach
- Anabledd corfforol/dysgu/meddyliol parhaol
- Wedi cofrestru'n ddall

**Canran y rhai a gafodd eu sgrinio**

Canran y rhai a gafodd eu sgrinio: % y cyfranogwyr cymwys sydd wedi mynd i wahoddiad sgrinio.

Mae canran y rhai sy'n cael eu sgrinio ar gyfer llygaid diabetig yn cael ei bennu o fewn egwyddorion dewis gwybodus a safon o 80% o gyfranogwyr yn mynd i ddigwyddiad sgrinio digidol lle mae delweddau'n cael eu cofnodi.

Enwadur = Cyfranogwyr gweithredol cymwys sydd wedi cael cynnig apwyntiad sgrinio rhwng dechrau'r mis a diwedd y mis.

Rhifiadur = Cyfranogwyr gweithredol cymwys sydd wedi mynd i apwyntiad sgrinio rhwng dechrau'r mis a diwedd y mis. Mae hyn yn cynnwys cyfranogwyr a aeth i'r apwyntiad ond nid oedd modd cymryd ffotograff am resymau technegol a chyfranogwyr nad oeddent yn gallu cydymffurfio â'r weithdrefn sgrinio.

**Cwmpas**

Cwmpas: % carfan a ddiffinnir o gyfranogwyr gweithredol cymwys â chanlyniad a gofnodwyd yn y 12 mis diwethaf

Enwadur = Cyfranogwyr gweithredol cymwys fel y'u cofnodwyd ar ddiwedd y mis.

Rhifiadur = Cyfranogwyr gweithredol cymwys ar ddiwedd y mis, y cafodd llythyr canlyniad ei argraffu iddynt o fewn y 12 mis blaenorol.

**Bwrdd Iechyd**

Dyma fwrdd iechyd preswyl y cyfranogwr.

**Gwahoddwyd**

Cyfranogwyr sy'n cael apwyntiad a gynigiwyd gyntaf (heb ei ganslo gan y rhaglen), o fewn mis yr adroddiad.

**Profwyd**

Nifer y cyfranogwyr â chanlyniad graddio terfynol.

**Retinopathi/Macwlopathi sy'n Bygwth Golwg**

Yn cynnwys canlyniadau graddio sy'n nodi retinopathi cyn ymledol neu ymledol: R2M0, R2M1, R3AM0, R3AM1, R3SM1. Mae hefyd yn cynnwys canlyniad graddio o retinopathi cefndirol bach gyda macwlopathi R1M1.

**Retinopathi/Macwlopathi Difrifol**

Yn cynnwys canlyniadau graddio sy'n nodi retinopathi difrifol (ymledol): R3AM0, R3AM1.

## 8. Tîm Cynhyrchu

Mae'r tîm cynhyrchu ar gyfer yr adroddiad hwn a gyflogir yn Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'u rhestru isod:

| | |
|---|---|
| Kate Morgan | Pennaeth y Rhaglen Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru |
| Helen Clayton | Rheolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data |
| Gavin Bhakta | Uwch-ddadansoddwr Gwybodeg a Data |
| Dr Sharon Hillier | Cyfarwyddwr yr Adran Sgrinio |
| Heather Lewis | Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus |
| Annie Ashman | Cofrestrydd Arbenigol Iechyd Cyhoeddus |
| Daniel Owens | Uwch Reolwr Cyfathrebu |
| Alex Stevens | Dadansoddwr Gwybodeg a Data |
| Rhys George | Cofus Cyf (Cyfieithiad Cymraeg) |

Nid yw'r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi fel Ystadegau Swyddogol

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Gweithio gyda'n gilydd i greu Cymru iachach

# Working together for a healthier Wales